Ysgol Gynradd Aberporth

Dyro dy law i mi ac fe awn i ben y mynydd

Grant Carlam Covid 19.

Bydd Ysgol Aberporth yn derbyn grant Carlam Covid 19 yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-21. Y swm mae'r Ysgol wedi derbyn o'r grant hwn yw £14,097. Taliad unwaith ac am byth yw'r grant hwn yn ystod y flwyddyn academaidd hon i sicrhau bod y plant rydym wedi adnabod sydd wedi dioddef o ddiffyg profiadau dysgu a datblygu yn ystod y pandameic, yn cael y cyfle gorau posib i ddal i fyny.

Sut bydd y grant yn cael ei wario?

Mae ond hawl defnyddio'r grant hwn i ddatblygu capsiti staffio'r Ysgol. Does dim hawl ei ddefnyddio i brynu adnoddau dysgu.
O fis Medi 2020, mae Ysgol Aberporth wedi cyflogi staff ychwanegol sydd yn gyfwerth â chynorthwy-ydd dysgu llawn amser.
Mae'r staff ychwanegol yma wedi helpu'r Ysgol i sicrhau bod yna athro a chynorthwy-ydd llawn amser ym mhob dosbarth trwy'r Ysgol gyfan. Mae cael 2 aelod o staff ym mhob dosbarth yn sichrau bod y staff yn gallu gwahaniaethu'n fwy effeithiol i gwrdd ag anghenion y plant.
Hefyd, bydd yn gwella capasiti'r Ysgol i ddarparu ymyrraethau llythrennedd, rhifedd a lles i gynorthwyo cynnydd y plant a'u gallu i ddal i fyny.

Sut bydd yr Ysgol yn sicrhau bod y grant yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol?

Bydd yr Ysgol yn monitro sesiynau dysgu ac yn craffu ar lyfrau er mwyn barnu pa mor dda mae'r plant yn datblygu. Hefyd, bydd system dracio'r Ysgol yn cael ei ddiweddaru yn dymhorol a bydd unrhyw anghenion ychwanegol yn cael ei adnabod a chymorth penodol yn cael ei roi mewn lle.